# PAM DEWIS TGAU
# BUSNES?

Bydd cymhwyster CBAC TGAU Busnes yn datblygu eich dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n gwneud busnes yn llwyddiannus. Byddwch yn meithrin mewnwelediad i'r materion allweddol sy'n wynebu busnesau ac i ffyrdd o ddatrys y rhain. Byddwch yn ymgymryd ag ymchwil i lunio barn resymegol a meddwl yn feirniadol am fusnesau yn eich ardal.

Byddwch hefyd yn adfyfyrio ar weithgaredd busnes yng nghyd-destun yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Byddwch yn astudio'r effaith y mae busnes yn ei chael ar gymdeithas. Byddwch yn archwilio tueddiadau'r farchnad swyddi ac yn deall gwahanol yrfaoedd busnes a chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i chi.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Uned 1 CYFLWYNIAD I'R BYD BUSNES – yn yr uned hon, byddwch yn astudio hanfodion busnes. Byddwch yn archwilio pwrpas gweithgaredd busnes a natur mentrau busnes, gan ddeall y gwahanol fathau o berchnogaeth a nodau busnes. Yn ogystal, byddwch yn dysgu am farchnadoedd a sectorau busnes, a phwysigrwydd y defnyddiwr. Byddwch yn cyfrifo costau a refeniw i wneud penderfyniadau busnes.

Uned 2 YSTYRIAETHAU ALLWEDDOL BUSNES – Yn yr uned hon, byddwch yn ymgymryd ag ymchwil ar fusnes a ddewisir yn eich ardal leol ac yn defnyddio canfyddiadau eich ymchwil i gynhyrchu adroddiad.

Uned 3 STRATEGAETHAU BUSNES AR GYFER LLWYDDO – yn yr uned hon byddwch yn archwilio swyddogaethau busnes allweddol cyllid, marchnata, adnoddau dynol, a chynhyrchu. Yn ogystal, byddwch yn astudio strategaethau ar gyfer twf busnes ac yn deall sut mae ffactorau allanol gwleidyddol, cyfreithiol ac economaidd yn effeithio ar fusnesau.

Uned 4 CREU BUSNES– yn yr uned hon, byddwch yn datblygu sgiliau menter. Byddwch yn cynnal ymchwil cynradd ac eilaidd i'r farchnad i gasglu gwybodaeth am gyfle entrepreneuraidd rydych wedi'i nodi. Byddwch yn llunio adroddiad sy'n ymdrin ag agweddau allweddol ar eich cynnig busnes.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

Mae Unedau 1 a 3 yn cael eu hasesu drwy arholiadau ysgrifenedig sy'n cynnwys atebion byr ac estynedig, gyda rhai yn seiliedig ar sefyllfaoedd busnes.

Mae Uned 2 a 4 yn asesiadau di-arholiad lle byddwch yn derbyn briff aseiniad i'w gwblhau. Byddwch yn ymgymryd ag ymchwil, yn dadansoddi'r data ac yn darparu barn.

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLGU?

Mae TGAU Busnes yn helpu i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau ar gyfer eich dyfodol:

- Sgiliau Llythrennedd – darllen, ysgrifennu, deall a mynd i'r afael â gwahanol fathau o destun a gwybodaeth.
- Sgiliau Rhifedd – deall, dehongli a gweithio gyda rhifau i ddatrys problemau busnes.
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau – dadansoddi gwybodaeth fusnes i wneud penderfyniadau neu lunio barn.
- Sgiliau Effeithiolrwydd Personol – cyflawni eich nodau drwy reoli eich amser, gosod targedau a dysgu o'ch profiadau.
- Creadigrwydd ac arloesi – meddwl yn greadigol, drwy lunio datrysiadau i broblemau busnes.

Bydd TGAU Busnes yn rhoi amrywiaeth o sgiliau i chi sydd nid yn unig yn werthfawr ar gyfer astudio busnes ymhellach, ond a fydd yn cyfuno ag amrywiaeth o bynciau.

## GYRFAOEDD MEWN BUSNES

Bydd TGAU Busnes yn eich paratoi ar gyfer llawer o yrfaoedd mewn busnes a diwydiant. Mae'r rhain yn cynnwys marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, y gyfraith, cyllid a chyfrifeg, rheoli adnoddau dynol, yn ogystal â gweithgynhyrchu a chynhyrchu.

Mae dealltwriaeth o egwyddorion rheoli yn berthnasol i lawer o rolau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a bydd yn werthfawr ar gyfer pa bynnag lwybr gyrfa a ddewiswch.

**DYSGWCH FWY - SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!**

